| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Archwilio Partneriaethau** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **26 Medi 2013** |
| **Aelod/ Swyddog Arweiniol:** | **Pennaeth Cynllunio Busnes a Pherfformiad** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Swyddog Datblygu Bwrdd Gwasanaethau Lleol** |
| **Teitl:** | **Datblygu Trefniadau Archwilio ar gyfer Bwrdd Gwasanaeth Lleol (BGLl) Conwy a Sir Ddinbych** |

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Mae'r adroddiad hwn:

1.1.1 Yn rhoi gwybod i aelodau'r Pwyllgor Archwilio am y penderfyniadau cymeradwy a wnaed hyd yma ynghylch Craffu'r BGLl.

1.1.2 Yn rhoi gwybod i aelodau'r Pwyllgor Archwilio am yr opsiynau sydd ar gael i'w defnyddio ar gyfer Archwilio BGLl Conwy a Sir Ddinbych yn y dyfodol.

1.1.3 Yn gofyn i aelodau'r Pwyllgor Archwilio wneud penderfyniad am eu dewis a ffefrir ar gyfer Archwilio BGLl Conwy a Sir Ddinbych yn y dyfodol.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Gofyn i aelodau'r pwyllgor Archwilio wneud penderfyniad am yr opsiwn i'w ddefnyddio yn Sir Ddinbych ar gyfer Archwilio BGLl Conwy a Sir Ddinbych yn y dyfodol.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Bod aelodau'r Pwyllgor Archwilio yn dewis opsiwn ar gyfer Archwilio Bwrdd Gwasanaethau Lleol Conwy a Sir Ddinbych yn y dyfodol.

## 4. Manylion am yr adroddiad.

4.1 Mae Atebolrwydd Cryfach ar gyfer y Byrddau Gwasanaeth Lleol yn agwedd allweddol ar Gydamcanu – Cydymdrechu ac mae'n nodi: ***Rhoi Sicrwydd i Awdurdodau Lleol:*** *mae nifer o gyrff yn gyfrifol am gyflawni'r dyletswyddau cynllunio statudol yn y ddeddfwriaeth berthnasol ond mae gan lywodraeth leol rôl i'w chwarae ym mhob rhan. Oherwydd hyn, dylai awdurdodau lleol sicrhau bod prosesau craffu effeithiol ar waith er mwyn sicrhau atebolrwydd democrataidd lleol am gamau a gymerir gan bartneriaethau.*

4.2 Cyflwynwyd adroddiad i BGLl Conwy a Sir Ddinbych ar 7 Rhagfyr 2012 a oedd yn darparu opsiynau ar gyfer 'trefniadau Archwilio BGLl Conwy a Sir Ddinbych yn y dyfodol er mwyn sicrhau atebolrwydd democrataidd ar gyfer gweithredu Partneriaeth'.

4.3 Roedd yr adroddiad yn egluro sut yr oedd swyddogaeth archwilio'r BGLl yn cyd-fynd a rhaglen diwygio gwasanaethau cyhoeddus a deddfwriaethol Llywodraeth Cymru, arferion presennol a 5 opsiwn posibl ar gyfer darparu. Yr opsiynau hyn oedd:

4.3.1 **Opsiwn 1**: Defnyddio Pwyllgorau Archwilio Partneriaethau unigol presennol.

4.3.2 **Opsiwn 2**: Defnyddio Pwyllgorau Archwilio Partneriaethau unigol presennol gyda chyd-opsiwn.

4.3.3. **Opsiwn 3**: Datblygu Cydbwyllgor Craffu BGLl Conwy a Sir Ddinbych newydd heb gyd-opsiwn (Is-bwyllgor y Pwyllgorau Archwilio Partneriaethau)

4.3.4 **Opsiwn 4**: Datblygu Cydbwyllgor Craffu BGLl Conwy a Sir Ddinbych newydd gyda chyd-opsiwn (Is-bwyllgor y Pwyllgorau Archwilio Partneriaethau)

4.3.5 **Opsiwn 5**: Opsiwn 3 a 4 ond yn annibynnol o system bresennol yr awdurdod lleol.

4.4 Mae manteision ac anfanteision pob opsiwn i'w gweld yn Atodiad 1.

4.5 **Dewis a Ffefrir y BGLl oedd Opsiwn 2 - defnyddio Pwyllgorau Partneriaethau unigol presennol gyda chyd-opsiwn.**

Gofynnodd y BGLl i bob Cyngor ymgynghori â'u Haelodau perthnasol am y dewis a ffefrir. Bu Conwy yn ymgynghori â'i Aelodau yng nghyfarfod y Cabinet ar 12 Chwefror 2013, lle cefnogwyd Opsiwn 2 - defnyddio'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Partneriaethau gyda chyd-opsiwn i'w gytuno (o ran Conwy, byddai hyn yn golygu defnyddio'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Partneriaethau gydag aelodau cyfetholedig (sydd heb hawliau pleidleisio) er mwyn darparu'r sylfaen wybodaeth/arbenigedd ehangach sydd wedi'i chynnwys yng nghylch gwaith y Cydbwyllgor Gwasanaeth Lleol).

4.6 Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio Partneriaethau ystyried a fyddent yn cefnogi Cynnig y BGLl.

4.7 Ym Mesur Llywodraeth Leol 2011, mae gofyniad i Bwyllgorau Archwilio Llywodraeth Leol archwilio darparwyr gwasanaethau cyhoeddus yn yr ardal.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Mae'r penderfyniad yn alinio â phob un o'r Blaenoriaethau Corfforaethol ac yn fwy eang bydd yn sicrhau canlyniadau gwell ar gyfer ein cymunedau.

**6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Gweler adran 9 isod.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd ar y penderfyniad?**

7.1 Ni fydd hyn yn cael effaith andwyol anghymesur ar nodweddion gwarchodedig ac mae'n fwy tebygol, o ganlyniad i archwilio, o gael effaith gadarnhaol (gweler Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb sydd ynghlwm yn Atodiad 2).

## 8. Pa ymgynghori a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?

8.1 - Cydbwyllgor Gwasanaethau Lleol Conwy a Sir Ddinbych
- Cydbwyllgor Archwilio Partneriaethau Anffurfiol Conwy a Sir Ddinbych
- Cabinet CBSC

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Mae'r opsiwn a argymhellir, sef opsiwn 2, yn golygu hyfforddiant ychwanegol, ond gellir ei ddarparu o fewn cyllidebau presennol. Felly ni ddylai fod unrhyw effaith ariannol.

## 10. Pa risgiau sy'n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1 Ni fydd y gofynion statudol sy'n gysylltiedig â Chydamcanu – Cydymdrechu yn cael eu cyflawni.

10.2 Mae'n bosibl y bydd rôl arweinyddiaeth gymunedol cynghorwyr yn cael ei gwanhau, sy'n rym pwysig yn ôl Adroddiad Simpson o ran sicrhau newid trawsnewidiol.

10.3 Byddai cydweithredu ac ymgysylltiad darniog gan na fyddai sefydliadau yn cael eu herio gan aelodau etholedig o ran eu hymrwymiad a'u cyfraniad wrth fynd i'r afael â phroblemau cymdeithasol disymud.

## 11. Grym i wneud Penderfyniad

- Adran 21 Deddf Llywodraeth Leol 2000
- Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011
- Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, Dogfen Ymgynghori Gorchymyn Personau Dynodedig (Rhif 1)
- Erthygl 6.1 o Gyfansoddiad y Cyngor

**Swyddog Cyswllt:**
Swyddog Datblygu Bwrdd Gwasanaethau Lleol
Ffôn: 07824 509289